
Cynghorwyr yn bresennol/Councillors present:

Val Davies	Glyn Jones	Raymond Lewis
Eirian Jones	Keith Lewis	C.Sir Linda Evans
Annette Davies	Melfyn Evans	
Lynn Evans	Sian Thomas	
Haulwen Lewis	Yvonne Griffiths	

Clerc:	Anita Evans
Ymddiheuriadau:	Marc Jones
Absennol:	neb
Cyfieithydd:	Hefin Jones
Ymwelwyr/Visitors:	PCSO Alice James,M.Davies,John Hubert,N.Jones.N.Marriott

1)Croesawodd Val Davies, y cadeirydd, bawb i'r cyfarfod.Cafwyd gair gan PCSO Alice James.Mae plant Cae'r Felin wedi bod yn codi sbwriel gyda'r Heddlu.Awgrymmodd ein bod yn anfon llythyr o ddiolch i'r ysgol.Mae gwarant 3 diwrnod wedi ei ddefnyddio yn ein Plwyf,ac mae 3 person wedi eu dal a chyffuriau.Mae problem loriau mawr yn goryrru drwy New Inn wedi ei basio ymlaen i "briefing board" adran draffig Cyngor Sir Gar.Dywedodd Val Davies fod ceir yn rasio ym Mhontweli,lawr y ffordd newydd ac ym maes parcio C.K's.Mae nhw mas yn orie man y bore.Diolchwyd i'r Heddwes cyn iddi adael.PCSO Alice James stated that pupils of Cae'r Felin have been litter picking with the Police around the village.She suggested that a letter of the thanks be sent to the school.A 3 day warrant was served in the Parish lately,and as a result 3 people were charged with drug possession.The problem of speeding lorries through New Inn has been passed by the Police to the Traffic Section of C.County Council.Val Davies gave information of cars speeding in Pontweli,from the new road to CK's car park;this happens in the early hours and they are extremely noisy.The PCSO was thanked before leaving the meeting.

2)Aelodau'r cyhoedd—dywedodd N.Marriott,Gwynfryn nad oes neb wedi bod mas i weld y sbwriel yn agos i'w thy.No one from the County Council has been out on site to see the rubble near Gwynfryn.

Meinir Davies—am roi gwybodaeth nad oedd twrbein 6 yn Fferm Wynt Blaengwen wedi bod yn troi yn ddiweddar yn dilyn difrod gwerth £60,000.Gofidir y gall un o'r rhain gwympto neu mynd ar dân—gan roi bywydau mewn perygl.Dydy'r cyhoedd ddim wedi derbyn unrhyw ganllawiau ar sut i ddelio gyda damweiniau o'r fath,ac mae'n gofyn ydy'r Cyngor yma wedi cael unrhyw wybodaeth.Gave information that turbine 6 on Blaengwen Wind Farm had been out of order lately,following damage costing £60,000.There are concerns amongst the public what would happen should one of the blades fall,or catch fire.The public have had no guidelines on how to deal with such a situation,and she asked if the Community Council had received any information from Statkraft.

966) 2)Norma Jones---yn ategu beth ddywedodd y siaradwr ola.Dywedodd fod cemegau yn y llafnau sy'n beryglus i blant,a'r rhai yn y groth.Dyma pam mae deddfwriaeth wedi ei gyflwyno yn Ffrainc i wahardd y defnyddiau yma.Norma Jones seconded the previous speaker,adding that the epoxy resin coating the blades contain large amounts of the toxic chemical bis-phenol A—and this is a great concern for health matters,especially as it degrades distributing tiny particles in a wide area of the surrounding land.

John Hubert---very concerned about the proposed building of a wind turbine on land known as Y Wern near his home.This Council was thanked for opposing this development—on 3 separate occasions.The worry now is that this development has been granted permission twice,with differing enforcement conditions.He asks which guidelines the County Council follow in this matter.

2)Cofnodion Chwefror—cafwyd yn gywir,Yvonne Griffiths yn cynnig,ac Eirian Jones yn eilio.

Materion yn codi/matters arising:

1)Gary Carsen-adran llwybrau C.Sir Gar—wedi anfon e-bost yn achwyn mai dim ond 10 datganiad tyst roedd y Cyngor yma wedi eu casglu ynghlŷn â llwybr Glanawmorisa,a bod dim mapiau wedi eu hanfon a manylder eu taith.Gofynnodd Eirian Jones pam fod y Cyngor yma yn cymeryd y cyfrifoldeb am hyn?Cynnigiodd Melfyn Evans fod llythyr cryf yn mynd at Mr.Carlsen yn datgan mai dyletswydd y Cyngor Sir yw darganfod y ffeithiau yma.Eiliodd Annette Davies.Gary Carlsen ,Countryside Access officer,C.County Council,after receiving 10 witness statements from this Council regarding the use of Glanawmorisa footpath,is complaining that no maps were enclosed showing walkers'route.Eirian Jones asked why this Council is doing all this research?Melfyn Evans proposed that a letter be sent to Mr.Carlsen,stating that it is Councillors'opinion that the County Council should be doing this groundwork.Annette Davies seconded.

2)Alltwalis—Cyfleusterau Cyhoeddus—mae nifer o Gynghorwyr wedi bod allan i gwrdd â Rhys Davies i wneud arolwg o'r gwelliantau sy wedi cael eu gwneud ar y safle.Gan fod nifer o bwyntiau wedi codi am bethau heb eu gorffen,bydd y Clerc yn anfon rhestr at y swyddog,er mwyn cael y lle yn dderbyniol.Many of the Councillors met with Rhys Davies(C.C.Council)to inspect the improvements carried out at the Public Conveniences at Alltwalis.A number of points arose during the visit,and the Clerk will send a list to the officer,for further work to be done which hopefully will bring the site up to an acceptable standard.

3)Maesderwenydd a Bro Gwen—mae swyddog o'r Cyngor Sir wedi bod allan yn gwneud arolwg o'r llwybrau ar y ddwy seit,a'r "copings"ar waliau ffrynt tai Maesderwenydd.Adran y Priffyrdd sy â gofal yr hewlydd ar y ddwy seit,a'r unig ateb mae'r Clerc wedi ei gael yw bod dim cyllid ar y foment.Maesderwenydd and Bro Gwen sites in Pencader have been inspected lately following complaints about the bad state of the roads,and copings in Maesderwenydd.There is no money at present to make improvements.

4)Ar ôl i Bethan Edwards RWE gynnig dod i gyfarfod i drafod cronfa'r gymuned sy'n dilyn datblygiad Fferm Wynt Gorllewin Brechfa,cytunwyd ein bod yn ei gwahodd erbyn 7.30yh Ebrill 20fed.Bethan Edwards REW will be invited to our April meeting—on the 20th at 7.30pm to discuss the Community Benefit Fund (following the development of Brechfa Forest West Wind Farm).

5)Seddau'r Plwyf:bydd archeb yn mynd i gwmni Broxap am 12 sedd Eastgate a byllt.Bydd rhaid hysbysebu am rhywun â diddordeb i'w rhoi yn eu lle yn gynta,cyn cael y manylion terfynnol.Cytunodd Keith Lewis,Raymond Lewis,Melfyn Evans a Haulwen Lewis gwrdd ar amser cyfleus i fynd o gwmpas a chael y manylion hyn.Parish benches—are being ordered from Broxap Company.This Council will advertise for someone to secure these,and the following Councillors will meet to get the final details:Keith Lewis,Raymond Lewis,Melfyn Evans and Haulwen Lewis.

967) Materion/Matters arising:

6) Rhoddodd Val Davies ac Eirian Jones wybodaeth ar y cyrsiau maent wedi eu mynychu yn ddiweddar ar y gyfraith. Pwysleisiwyd yr angen am is-bwyllgorau, a bod dim un Cynghorydd i weithio'n unigol. Mae'r Cyngor yma yn dilyn y rheolau yma yn barod. Mae eisiau gofyn am dender am bob darn o waith o dan fil o bunnoedd; rydyn ni'n gwneud hyn. Dau bwynt a godwyd oedd Polisi Dwyieithrwydd—mae dogfen i fod cyrraedd Cynghorau bob blwyddyn; a'r angen i benodi Rheolydd Data. Val Davies and Eirian Jones reported back on the law training session. It was stressed that sub-committees are important, and that no Councillor is to work on their own. All jobs over a £1,000 are to go out to tender. This Council adheres to these rules already. Points arising were that every Council should have an annual document on the Bilingual Policy, and that we should appoint a Data Manager.

7) Mae'r Clerc wedi bod ar gwrs cyllid yn Llandrindod Wells. Dyma rai o'r pwyntiau â godwyd: dylid edrych ar asesiad risg, a'r gyllideb ym mis Hydref; does dim rheid penderfynnu ar y Praesept tan Fawrth 1af; dylid edrych ar y math o hyfforddiant sy angen ar aelodau'r Cyngor, a dylai'r ddau ofalwr fynd ar gysie addas hefyd; eisiau cadw cofrestr asedau bob blwyddyn (a phob 5 ar gyfer ysiwriant). The Clerk has been on a finance course in Llandrindod and these are some of the points discussed: Councils should make a risk assessment, and discuss the budget in October; there is no need to inform the County Council of changes in the preferred Praecept until March 1st; we should look at the type of training required by Councillors, and the two caretakers need to attend suitable training; there should be an annual register of assets (and every 5 years for insurance purposes).

8) Cyfarfod Clercod Gorllewin Cymru—Mawrth 7fed. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyfarfod clercod Cymru ym Mhencoed ar y 19eg o'r mis i drafod papur gwyn y Cynnulliad ar Ddatganoli gwasanaethau, a chynghorau tref a chymuned. Mae 733 o gynghorau yng Nghymru, a'r cynllun yw colli 500. Gofynnwyd i Gynghorau "beth yw eich pwrpas fel Cyngor?" ateb ein Cyngor ni yw ein bod yn cynrychioli, a gwella ein hardal, gweithredu ar ran y gymuned a gwarchod lleoliadau e.e. Y Fynwent, Y Gogolofn, Cornel Chwarae. Mae eisiau ymateb i'r papur gwyn erbyn Ebrill 28ain. The Clerk attended an SLCC meeting for clerks on 7/03. It was stressed the importance of responding to the Assembly's white paper on town and community council devolution, and the impending Welsh Clerks meeting in Pencoed on 19/03. There are currently 733 councils in Wales, and there is a possibility that with mergers, there will be 500 less. The question was asked of Councils "what is your purpose as a Council?" answers from this Council are that we represent, and try to improve the community; act on behalf of Parishoners, and protect locations such as The Parish Cemetery, the War Memorial and the Play Area. Responses to the white paper should be sent by April 28th

9) Golau tu fas Cwm Gwyddgrug wedi ei ail gysylltu/street light outside Cwm Gwyddgrug has been seen to.

10) Yn dilyn is bwyllgor (Melfyn Evans, Eirian Jones, Raymond Lewis a Keith Lewis) yn cwrdd ar 21/02 yn y Cornel Chwarae i weld cyflwr y safle, mae Eirian Jones wedi codi nifer o bwyntiau. Y teimlad cyffredinol yw fod angen newid yr holl gyfarpar, rhoi 2 iet newydd, ac efallai edrych ar osod mat du dros yr holl safle. Cynnigiodd Melfyn Evans ein bod yn rhoi cynnig am grant oddiwrth Statkraft. Eiliodd Raymond Lewis. Byddwn yn cysylltu â Chynghorau Cymuned eraill i weld pa gwmni maent wedi defnyddio, ac os yn bosib y Cynghorwyr i fynd i weld safleoedd. Bydd y Clerc hefyd, er mwyn symud ymlaen, yn cysylltu â thri chwmni—Lapsett, Playdale ac Ebie i ofyn am gynllun a phris. Bydd hysbyseb yn cael ei roi yn Clecs i ofyn am rywun i wneud/ail-osod y ddwy iet ar y safle. Bydd y Clerc yn gofyn i Haydn Jones dynnu'r swings i ffwrdd o achos diogelwch. Derbyniwyd yr adroddiad blynyddol o'r safle ar ôl ymweliad arolygwr wedi ei drefnu gan y Cyngor Sir. Mae hwn yn cadarnhau ein dymuniad i ail-wampio'r safle. Sub-committee of Eirian Jones, Melfyn Evans, Keith Lewi and Raymond Lewis met on 21/02 at the Play Corner, Pencader to inspect the site. Shortly after this date the inspection report from the County Council arrived. There are numerous problems with the equipment, and with the black floor matting. Melfyn Evans proposed that we apply for a grant from Statkraft, and Raymond Lewis seconded. Councillors will ask other Councils which company they have used, and some sites will be visited. In the meantime the Clerk will contact 3 companies; Lapsett, Playdale and Ebie for site visits, plans and quotes. She will also ask Haydn Jones to remove the swings for safety.

11) Capel Troedyrhiw, Alltwalis—eisie anfon llythyr o gwyn/a letter complaining about the state of Alltwalis Chapel will be sent to the Planning Dept. C. County Council. Glyn Jones proposed this and Keith Lewis seconded.

968)3)Ariannol/financial:--cafwyd yn gywir Raymond Lewis yn cynnig,a Lynn Evans yn eilio.Biliau i'w talu:cyflogau arferol;D3D Alltwalis(printer)£50.00,Cwrs y Gyfraith/Law trainingx2 £70.00;Cwrs y Clerc/Clerk's course Llandrindod-£114.00;Mansel Griffiths a'i Fab—repairs to ride on mower--£382.20;Dŵr Cymru—Mynwent y Plwyf-£20.77,Alltwalis--£17.51;Aelodaeth SLCC/membership for Clerk--£103.00;Costau'r Clerc/costs 01/02 -18/02--£19.19.Cynnigiwyd fod rhain i'w talu/ Raymond Lewis proposed that these bills be paid and Sian Thomas seconded.

Dyweddodd y Clerc fod Paul Griffiths wedi edrych yn fanwl ar y peiriant torri porfa ym Mynwent y Plwyf,a bod ei gyflwr yn gwaethygu—mae'n rhydu ac yn llosgi llawer o olew.Cynnigiodd Melfyn Evans ein bod yn gofyn i Haydn Jones chwilio mas am dri phris i gael un newydd,ac eiliodd Haulwen Lewis.Paul Griffiths has inspected the ride on mower for grass cutting in the Parish Cemetery,and states that it is rusting and using a lot of oil.Melfyn Evans proposed that we ask Haydn Jones to find prices for 3 new machines,and Haulwen Lewis seconded.

4)Cynllunio/Planning: (gadawodd C.Sir Linda Evans/left the meeting) Newydd:

a)W/31634-----gosod/installation of ground mounted solar pv system—Sunny Bank,Llan'el ar arth for Sarah Eyles.

b)W/31674-----newid defnydd/change of use of agr.land to extension to existing machinery business for parking tractors and diggers,and CCTV cameras at Gwastod Abbot,New Inn for J.Davies and son.

Doedd dim gwrthwynebiad i'r ddau gais/no objection to both applications.

5)Gohebiaeth/Correspondence:C.Sir Gar/C.County Council:

a)Bwcabus—digwyddiad yn yr Amgueddfa Wlan Drefach-Felindre/Dissemination Event 19/03.

b)Gary Carlsen(Ilwybrau)—yn rhoi gwybodaeth fod darn o lwybr yn Alltwalis wedi ei flocio,ac yn gofyn a oedd y Cyngor yma wedi cael unrhyw gwynion—anfonir nol ato gan ddweud na./asks if this Council has had any complaints regarding a blocked footpath in Alltwalis.The answer is no.

c)Teledu Cylch Cyfyng—ymgyngoriad ar newidiadau monitro.Bu trafodaeth,a bydd y Clerc yn rhoi ateb y Cyngorwyr ar y we.The County Council are consulting re changes to monitoring of its CCTV cameras.There was a discussion on the questions asked,and the Clerk will answer on line.

ch)Papur Gwyn Datganoli Llywodraeth Cymru—llythyr i'n hatgoffa i roi ein barn.Penderfynwyd cwrdd nos Lun nesa gan ei bod yn ddogfen gynhwysfawr. We have been reminded to respond to the white paper on devolution;this Council will meet next Monday to fill the questionnaire.

d)Diwrnod agored gan yr adran Hamdden a Chwaraeon/free activity open day at Llandysul Paddlers 22/03.

Eraill/other:

dd)U.LL.Cymru—gwybodaeth am gyrsiau/One Voice Wales —a list of future training sessions.Cynnigiodd Eirian Jones ein bod yn ystyried, i'r dyfodol, i ymuno gyda Chynghorwyr o ardaloedd eraill i gael hyfforddiant mewn grŵp lleol.Dydy hi ddim bob amser yn gyfleus i fynd i'r lleoliadau sy'n cael eu cynnig.Eiliodd Yvonne Griffiths.One Voice Wales have sent a list of future training sessions.Eirian Jones proposed that we keep in mind the possibility of inviting neighbouring Councils to join us for a course,as venues and times are very often not convenient.Yvonne Griffiths seconded the proposal.

e)Dyddiadau casglu sbwriel dros y Gwyliau Banc/a timetable of bin collections over the coming bank holidays.

969) 6)UFArall—gwybodaeth yn unig/AOB information only.

Sian Thomas---sbwriel Alltwalis/rubbish on roads and hedges.

Melfyn Evans---ceir yn parcio ar y llwybr troed yn New Inn sy'n rhedeg wrth Heddfryn.Llawer o sbwriel ac ati wedi ei daflu lawr y banc o dan Penrhiw, Alltwalis.Bydd y Clerc yn cysylltu â Martin Murray,a gyda'r adran orfodaeth.Cars are parked on the footpath adjacent to Heddfryn New Inn.The Clerk will contact Martin Murray.At the top of Alltwalis hill rubbish has been thrown down the bank in front of Penrhiw.There was a serious accident here in the past.The Clerk will contact the enforcement dept.

Yvonne Griffiths ---sbwriel hewl Gwyddgrug/rubbish on road.

Haulwen Lewis----mae'n bryd i ni drefnu camera cudd yn y Cornel Chwarae.Bydd y Clerc yn chwilio prisiau.It's time we set up cctv in the Play Area,as the site is often mis-used.The Clerk will find quotes.

Clerc---yn ceisio ffonio HMRC i gael llyfryn talebau—dim lwc eto/difficulty in getting answers from HMRC in ordering pay slips.

Annette Davies—gofyn a fyddai'n syniad da i gynnig am “defibrulator”i'r gymuned oddiwrth Statkraft.Atebodd Eirian Jones y byddai'n broblem ble i'w gadw,a bod ymateb cynta yn Llandysul,sy'n go agos.Mae arwynebedd hewl Dolgran lan hyd Ffrydiau yn wael iawn,ac mae problem dwr ar bwys Ffrydiau.Asked if it was a good idea to apply for a defibrulator placed in the community from Statkraft.Eirian Jones stated that it would be a problem where to store it,and that the First Response in Llandysul is in close proximity.

Keith Lewis --am nodi fod gwaith hewl Llwynwallter wedi dechrau/road works on Llwynwallter road,Alltwalis have started.

Glyn Jones---gofyn am arwydd i wahardd loriau fynd lawr hewl Glantweli Fach—dywedodd y Clerc ei fod ar waith.Eisiau dweud wrth John McEvoy fod y ddau glustog cyflymder ym Mhencader eisiau sylw brys.The 2 speed humps in Pencader are deteriorating,and will be reported for repairs.

Raymond Lewis—coeden fawr yng Nghwmgwen,Pencader yn edrych yn beryglus—bydd y Clerc yn cysylltu â Steve Edwards.A large tree in Cwmgwen Pencader looks dangerous,and needs attention.

Bu cyfarfod anffurfiol ar nos Lun Mawrth 23ain i lanw holiadur y Papur Gwyn ar Ddatganoli gwasanaethau.

An informal meeting was held to express responses to the Assembly's White Paper on the Devolution of services.This took 2 hours.

970) 7) Adroddiad ariannol/financial statement:

Taliadau/payments

Derbyniadau/receipts:

Haydn Jones	£240.51
Janet Jones	129.19
Anita Evans	341.86
Costau'r Clerc	19.19
(1/02—18/02)	
Trywydd	77.40
HMRC	177.60
NALC(Ilyfr)	64.99
U.LL.Cymru	272.00
(aelodaeth)	
D3D(printer)	50.00
Garej Annwylfan)	382.20
U.LL.Cymru(cwrs)	70.00
Dwr Cymru(x2)	38.28
SLCC(ael'aeth/cwrs)	217.00

yn y Banc Mawrth 6ed 2015----	£73,968.78
ail-lythrennu carreg fedd	30.00

Cyfanswm: £2,080.22

£73,998.78

Yn y Banc Ebrill 3ydd 2015

£71,918.56

